Cofnodion Cyfarfod o Gyngor Llawn Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, ddydd Mercher, 24ain Medi, 2008 am 7.30 p.m.

Presennol: Y Maer Cyng Edward Thomas, Dirprwy Faer Cyng Charlotte Leadbeater, Cyng Colin Jenkins, Cyng Julia Jones, Cyng Ieuan Gwyn, Cyng Christopher Parish, Cyng Dawn Wallace, Cyng Richard Wallace. Cyng Ros Bellamy, Cyng Roy Davies, Cyng Hugh Towns.
Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr. Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau : Cyng Fran Murphy. Anfonodd y Maer ddymuniadau gorau'r Cyngor am wellhad buan merch y Cyng Murphy yn dilyn ei salwch.

Materion yr Heddlu : Dywedodd PC Vernon Thomas bod 2 drosedd wedi'u cofnodi yn ystod y mis. Mae cerbyd modur sydd wedi'i ladrata yn cael ei archwilio, tra bod swmp o ganabis wedi'i atafaelu o ganlyniad i warrant gyffuriau, a llwyddwyd i ddod o hyd i'r troseddwr.

Cof 134/ Medi /08 Adroddiad y Cynghorydd Sir

Dywedodd y Cynghorydd Sir Ieuan Jones bod cost y gwaith o ddymchwel yr hen bafiliwn tennis allan ar dendr ar hyn o bryd. Yn anffodus mae yna adroddiadau o fandaliaeth ym Mharc le Conquet, a gofynnwyd i'r Heddlu ymchwilio iddo. Dywedodd Cyng Jones bod CSC yn aros am gadarnhad gan Lywodraeth y Cynulliad o'r ffaith bod prosiect Tywi Afon yr Oesoedd wedi bod yn llwyddiannus yn denu nawdd am y tair blynedd nesaf.
Mae CSC wedi derbyn llythyron o brotest gan unigolion yn erbyn y cynnig i drigolion barcio yn Heol Newydd.

Cof 135/ Medi / 08 Cofnodion Blaenorol

Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion o Gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, 23ain Gorffennaf, 2008 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn ac eiliwyd gan y Cyng Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mawrth, Awst 12fed, 2008 fel cofnod cywir. Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Roy Davies. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir, ddydd Mercher, Medi 3ydd, 2008 fel cofnod cywir gan eu hargymell i'w derbyn.

Cynigiwyd gan y Cyng Colin Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng Dawn Wallace. Roedd pawb o blaid.
Darllenwyd a chadarnhawyd Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Siambr Neuadd y Sir ddydd Mercher, Medi'r 3ydd, 2008 i'w hargymell i'w derbyn. Cynigiwyd hyn gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Ieuan Gwyn. Roedd pawb o blaid.

Cof 136 / Medi / 08 Materion yn codi o gyfarfodydd blaenorol

Parth: Cof 107/Gorffennaf/08.Dywedodd y Swyddog Technegol bod dŵr yn treiddio i mewn i'r hen bafiliwn tennis trwy'r to lle mae yna gyflenwad byw o drydan. Argymhellwyd bod y Clerc yn adrodd am hyn i CSC fel mater brys.
Parth: Cof 111 / Gorffennaf / 08 Rhoddodd y Cyng Charlotte Leadbeater y trefniadau diweddaraf ar gyfer y Daith Noddedig er budd elusennau Clefyd y Siwgr. Mae angen i ragor o bobl wirfoddoli fel stiwardiaid. Roedd y Cyng Julia Jones wedi cynnig cymorth gyda'r ffurflenni nawdd ac roedd y Cyng Roy Davies wedi cynnig darparu sylwebaeth ar waith tirweddol Capability Brown yn ystod y daith gerdded trwy Barc Dinefwr.
Parth : Cof 131/ Medi /08 Adroddodd y Swyddog Cyllid ar y Bond Llog Uchel sydd wedi'i ail-fuddsoddi am dri mis arall.

Cof 137 / Medi / 08 Gohebiaeth sydd angen ei ateb

1. CSC – gohebiaeth o adran Mark James mewn ateb i fater a godwyd gan y Cyngor. Nodwyd.
2. Heddlu Dyfed Powys – ateb i lythyr y Cyngor yn gofyn i'r PCSO gael mwy o bwerau i ymdrin â materion parcio. Nid oedd y Prif Gwnstabl yn cefnogi'r awgrym.
3. CSC – ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y Cyng Roy Davies yn archwilio ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.
4. Adran Gadwraeth CSC Parth. Yr angen i docio coed ym mynwent Eglwys Plwyf Llandeilo. Nodwyd.
5. CSC – Parth. cyfrifon y grantiau a ddyfarnwyd i Brosiect Neuadd y Sir a'r prosiect Llwybr Treftadaeth. Argymhellwyd bod y Swyddog Cyllid yn cydweithio gyda'r Clerc i ddod o hyd i le diogel i'w cadw.
6. Mr Gerwyn Thomas, CSC mewn perthynas ag amcangyfrif o gostau atgyweirio Gatiau Penlan. Argymhellwyd bod y Clerc yn cysylltu â Mr Thomas er mwyn canfod manylion costau'r gwaith atgyweirio.
7. CSC - e-byst mewn perthynas â'r byrddau a osodir y tu allan i Cafe Saldavor - dim casgliadau hyd yn hyn.
8. CSC - e-byst mewn perthynas â diffyg arwyddion ar gyffordd Heol Rhosmaen a Stryd y Brenin. Adroddiad heb ei dderbyn hyd yn hyn.
9. D.A.Jones - parth. Cynnig i roi eginblanhigion i blant ysgol i'w plannu. Argymell bod y Clerc yn diolch i Mr Jones a'i hysbysu y bydd y Cyngor yn gofyn am gyngor gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gorllewin Cymru er mwyn awgrymu ardaloedd addas i blannu arnynt cyn mynd ymlaen â'r prosiect.
10. MC Towns, Comisiynydd y Geidiaid yn diolch i'r Cyngor am ganiatáu i'r merched gymryd rhan yn yr osgordd o anrhydedd yn ystod y parêd ar gyfer cystadleuwyr Treialon Cŵn Defaid y Byd.
11. Mr J. Morgan - copi o ddeiseb a anfonwyd i Adran Gynllunio CSC mewn perthynas â gwrthwynebiadau i gais cynllunio am fwyty ac ystafell i gynnal digwyddiadau yn y Salutation Inn. Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at Mr

Morgan a'i hysbysu fod y Cyng Roy Davies yn barod i gwrdd ag ef er mwyn egluro safiad y Cyngor Tref.

12. Gŵyl y Synhwyrau - gwybodaeth parthed y digwyddiadau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyddiadau rhwng y 14eg-22ain Tachwedd. Nodwyd.

Cof 138/ Medi/ 08 Gohebiaeth er gwybodaeth.

1. Ysgol Tre-gib – rhestr o fuddugwyr gwobrau'r Cyngor am gyfraniad cymunedol. Nodwyd.
2. CSC – Gwahoddiad i enwebu unigolion i Wobrau Personoliaeth Chwaraeon Blynyddol. Nodwyd.
3. Heddlu Dyfed Powys – gwahoddiad i Ddiwrnod Agored ar Fedi'r 29ain, 2008. Nodwyd.
4. Gwahoddiad i enwebu llywodraethwr i Ysgol Gynradd Llandeilo yn lle'r Cyng Hugh Towns. Enwebwyd y Cyng Richard Wallace gan y Cyng Hugh Towns ac eiliwyd gan y Cyng Chris Parish. Roedd pawb o blaid. Bydd y Clerc yn hysbysu CSC.
5. Bydd y Clerc yn hysbysu CSC fod y Cyng Roy Davies am gymryd swydd llywodraethwr yn Ysgol Gymraeg Teilo Sant o'r 30ain Tachwedd fel y penderfynwyd yn CBC y Cyngor.
6. Un Llais Cymru – cyfarfod Ardal Caerfyrddin yn Llangadog ar 25.8.08. Nodwyd.
7. Un Llais Cymru – Y diweddaraf ar drefniadau ar gyfer y gynhadledd ar Hydref yr 11eg, 2008. Nodwyd.
8. LlCC - llyfryn Gwerthfawrogi Cymru. Bydd y Cyng Ros Bellamy yn ei ddarllen ac yn adrodd yn ôl i'r Cyngor.
9. Cymdeithas Adeiladu Abertawe – gwybodaeth am gyfrif cynilo uwch. Nodwyd.

Cof 139/ Medi / 08 Materion Ariannol.

1. Cyfrifon i'w Talu

WCVA (Gweinyddiaeth Awst 2008)	£	35.54
WCVA (Cyflogau Awst 2008)	£	167.40
Hugh Gwynne (glanhau llwybrau troed)	£	1,269.00
Des Davies (ad-daliad am nwyddau)	£	99.87
Thomas Fattorini (adnewyddu Cadwyn y Maer)	£	2,477.21
Thomas Fattorini (cas Regalia)	£	247.05
BT (ffôn y swyddfa)	£	58.26
Band y Gatrawd Gymreig (Parêd 10.9.08)	£	1,096.00
Clerc (prynu 4 baner Cymru ar gyfer y parêd)	£	11.96
Popty Bach y Wlad (arlwyo ar gyfer derbyniad Treialon y Byd)	£	1,468.00
Y Maer (casglu post nas dalwyd amdano)	£	4.26
Gwobr Flynyddol Ysgol Tre-gib (unigol)	£	60.00
Gwobrau Blynyddol Ysgol Tre-gib (10 o wobrau grŵp o £30 yr un)	£	300.00

Penderfynwyd talu'r rhain. Cynigiwyd gan y Cyng Chris Parish ac eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Roedd pawb o blaid.

2. Materion Ariannol Eraill

i) Oherwydd y cymorth a dderbyniwyd ar gyfer Dathliadau Canmlwyddiant Parc Penlan rhoddwyd y cyfraniadau canlynol
Ambiwlans Sant Ioan - £50
Ysgol Tre-gib (defnydd o fyrddau) - £50
Cantorion Sant Teilo - £50
Ysgol Gynradd Llandeilo - £50
Ysgol Gymraeg Teilo Sant - £50

ii) Gohebiaeth oddi wrth Mrs M. Williams mewn perthynas â'r Cyngor yn rhentu'r garej

a) Anfoneb am rentu'r garej am y cyfnod rhwng Ebrill 2007 – Mawrth 2008 am £6 yr wythnos - £ 312.00

b) Anfoneb am rentu'r garej am y cyfnod rhwng Ebrill 2008-Mawrth 2009 am £7 yr wythnos - £364.00

Cynigiwyd gan y Cyng Hugh Towns y dylid talu'r anfonebau hyn. Eiliwyd gan y Cyng Ros Bellamy. Argymhellwyd y dylai'r Pwyllgor Cyllid drafod llunio cytundeb mwy hir dymor gyda Mrs Williams am y defnydd o'r garej.

Cof 140/ Medi / 08 Cludiant a Phriffyrdd

1. CSC – Cau Heol Alan dros dro o'r 29ain Medi am gyfnod o bum niwrnod
2. CSC - Cau Stryd y Farchnad dros dro am gyfnod rhwng 17.00 ddydd Gwener, Tachwedd 21ain i 18.00 ddydd Sadwrn 22ain Tachwedd ar gyfer cynnal marchnad fwyd fel rhan o Ŵyl y Synhwyrau.

Cof 141 / Medi / 08 Model y Cod Ymddygiad i Aelodau

Atgoffodd y Clerc yr aelodau y dylent ddychwelyd eu cofrestr o ddiddordebau cyn gynted â phosib.

Cof 142 / Medi / 08 Adroddiad y Swyddog Technegol.

Adroddodd Mr Davies ei fod wedi gofyn i Mr Moses, contractwr lleol i archwilio i achos y dŵr sy'n gollwng i ystafell fyny grisiau yn Neuadd y Sir. Bydd Mr Hugh Gwynne yn tynnu'r iorwg oddi yno, gan gynnwys y gwreiddiau, er mwyn atal rhagor o ddifrod i wal Neuadd y Sir.
Bydd y Cyng Roy Davies yn siarad â Phil Wait o Cambria mewn perthynas â chyflwr un o'r placiau Treftadaeth.

Cof /143 / Medi / 08 Llandeilo yn ei Blodau

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â ffyrdd o wella arddangosfeydd blodau o amgylch y Dref. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â chynghorau sydd wrth ymyl er mwyn derbyn cyngor ar ba mor addas yw basgedi crog. Cytunwyd y byddai'r Maer yn galw is-grŵp, gyda'r Cyng Julia Jones er mwyn cynorthwyo i edrych i mewn i wneud y gwelliannau priodol.

Cof 144/ Medi / 08 Adroddiad y Maer.

Diolchodd y Cyng Edward Thomas i bawb oedd wedi bod yn ymwneud â'r parêd a'r derbyniad i groesawu cystadleuwyr Treialon Cŵn Defaid y Byd. Roedd yr achlysur ym Mharc Dinefwr dros gyfnod o bedwar diwrnod wedi bod yn wych gan ddod â sylw positif iawn i'r Dref. Diolchodd y Cyng Charlotte Leadbeater i'r Maer, ar ran y Cyngor, am groesawu'r Cyngor i'w gartref ddydd Sul, Awst 17eg, 2008.

Gofynnodd y Maer am rywun i wirfoddoli i gynorthwyo'r Clerc i ddiweddaru gwefan y Cyngor. Cynigiodd y Cyng Ros Bellamy ei harbenigedd, a derbyniwyd hynny'n ddiolchgar.

Cof 145/ Medi / 08 Adroddiadau Eraill

1) Yr Is-grŵp Tân Gwyllt
   Dywedodd y Cyng Chris Parish fod yr holl drefniadau mewn llaw. Disgwylir y rheini fydd yn gyfrifol am y byrddau wrth y fynedfa, i fod yna erbyn 5.30pm. Bydd y Clwb Rygbi a'r Ford Gron yn darparu enwau'r Stiwardiaid. Bydd Argraffwyr Thomas yn cynhyrchu 50 o bosteri erbyn y 24ain o Hydref ar gost o £50 gan gynnwys taw. Gan na fydd unrhyw rhaglenni'n cael eu cynhyrchu eleni, gofynnodd y Cyng Parish i'r digwyddiad gael ei hysbysebu ar wefan y Cyngor.
2) Is-grŵp Treialon Cŵn Defaid y Byd
   Rhoddodd y Cyng Colin Jenkins adroddiad ar y gwariant ariannol ar gyfer y parêd a'r derbyniad.

3) Yr Is-grŵp Goleuadau Nadolig.
   Adroddodd y Cyng Chris Parish y byddai cynnau'r goleuadau Nadolig eleni yn cyd-fynd ag wythnos Gŵyl y Synhwyrau sef dydd Gwener, Tachwedd 21ain, 2008. Cynigiwyd adloniant gan Gôr Sainteilo a Band Arian Tref Rhydaman. Noson i ddechrau am 7pm. Bydd y siopau ar agor tan 9pm. Cynhelir cystadleuaeth ffenest siop sydd wedi'u haddurno orau gyda gwobrau o £50 am y wobr gyntaf, £30 am yr ail a £20 am y drydedd wobr. Bydd y gwaith o feirniadu'r gystadleuaeth hon yn digwydd ar Dachwedd yr 16eg.
4) Polisi Iaith Gymraeg.
   Adroddodd y Cyng Roy Davies ar y newidiadau y mae'r Cyngor wedi'u gwneud i'r polisi a luniwyd yn 2004. Seiliwyd llawer ar y cynnydd yn y defnydd o hysbysiadau cyhoeddus yn Gymraeg ers i'r Cyngor gyflogi Clerc dwyieithog. Cytunwyd y dylid derbyn argymhellion Cyng Davies ac i ofyn i'r Is-grŵp Gweithdrefnau lunio dogfen Polisi Iaith Gymraeg newydd i'w hanfon at Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Roedd pawb o blaid.

Cof 146/Medi /08 Unrhyw eitemau eraill o fusnes sydd oherwydd amgylchiadau brys yn ôl y Cadeirydd yn haeddu sylw brys yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Cytunwyd ar y dyddiadau canlynol :
Rhagfyr 3ydd, 2008 – Cyfarfod Arbennig i gynnig Cyllideb ar gyfer 2009-10
Rhagfyr 10fed, 2008 – Cyfarfod o'r Cyngor Llawn
Rhagfyr 13eg, 2008 – Bwffe Nadolig gyda'r nos.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.40pm

Clerc y Dref Neuadd y Sir Stryd Caerfyrddin Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk
Town Clerk Shire Hall Carmarthen Street Llandeilo SA19 6AF 01558-823850 clerk@llandeilo.gov.uk